

Fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol

Ar gyfer pwy y mae'r fframwaith?

Awdurdodau lleol, yn ymwneud â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Beth yw diben y fframwaith hwn?

- Galluogi pobl eu hunain i ddeall ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol a gwneud penderfyniadau deallus am eu gofal a'u cymorth.
- Ategu gwaith cynllunio strategol awdurdodau lleol i dargedu adnoddau a gweithgarwch gwella.
- Cefnogi awdurdodau lleol i gymharu a meincnodi eu perfformiad yn erbyn eraill a dysgu a gwella.
- Darparu tystiolaeth o gyfrifoldeb ac atebolrwydd am ddarpariaeth leol i Weinidogion Cymru a llywio'r gwaith o ddatblygu polisi cenedlaethol.
- Ategu a llywio'r gyfundrefn rheoleiddio, archwiliadau arolygu a chraffu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Pwy ddatblygodd hyn?

Rydym wedi ymgynghori'n eang. Cafodd rhwydwaith technegol traws-sector ei sefydlu i gynghori Llywodraeth Cymru ar y fframwaith hwn a gellir gweld yr aelodau yma: <http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/resources/draft-regulations/?lang=cy>


Sut bydd perfformiad yn cael ei fesur?

Mae'r cod ymarfer ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gyhoeddi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae ar gael yma:

<http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=cy>

Bydd y mesurau perfformiad sydd yn y cod ymarfer yn disodli pob mesur perfformiad a ddefnyddir ar hyn o bryd gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a bydd rhaid eu casglu pan fydd y Ddeddf yn cychwyn.

Sut bydd perfformiad yn cael ei adrodd?



Bydd data yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru.




Byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ysgrifenedig.

Sut bydd hyn yn cyd-fynd â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol?



Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol



Sut bydd gwasanaethau eraill yn cael eu dwyn i gyfrif?

Bydd y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn datblygu'r dull i sicrhau fod gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddig yn cael eu dwyn i gyfrif.